

SALUSBURY, SALISBURY, SALESBURY (TEULU), Llewenni a Bachygraig.

Erys cryn ansicrwydd ynghylch tarddiad y Salbriaid, ond tybir eu bod wedi ymsefydlu'n gynnar yn Nyffryn Clwyd, o bosibl cyn canol y 13eg ganrif, er y dylid nodi nad enwir yr un o'r teulu ymhlith y rhai a dderbyniodd diroedd a breiniau eraill yn Ninbych dan siartr Henry de Lacy (cyn 1290). Cyfeirir at Syr John Salusbury, a fu farw yn 1289, fel sefydlydd priordy'r Brodry Gwyn yn Ninbych.

Yn nhreigl amser datblygodd y Salbriaid yn Gymry trwyadl, a chyn canol y 16eg ganrif daethai llwyddiant i ran pob un o bum mab THOMAS SALUSBURY, a laddwyd ym mrwydr Barnet (1470) a'r cyntaf o'r teulu i gael ei ddisgrifio fel o Lewenni. Dyrchafwyd FFOWC SALUSBURY, yr ail fab, yn ddeon Llanelwy cyn 1505 a daliodd y swydd hyd ei farwolaeth yn 1543; yr oedd tri arall, drachefn, yn berchenogion eu stadau eu hunain - Henry Salusbury yn Llanrhaeadr, Robert Salusbury ym Mhlasisa, Llanrwst, a John Salusbury ym Machymbyd. Y mab hynaf a'r aer ydoedd THOMAS SALUSBURY (bu farw 1505), a ymladdodd ym mrwydr Blackheath (1497) ac a wobrwyyd gan [Harri VII](#) ag urdd marchog. Dilynwyd ef gan ei fab Syr ROGER SALUSBURY (bu farw 1550), a chan ei fab yntau, JOHN SALUSBURY (bu farw 1578), a urddwyd yn 'Knight of the Carpet' gan Edward VI ar achlysur ei goroni, 20 Chwefror 1547. Priododd 'Syr John y Bodiau,' fel y'i gelwid weithiau oherwydd ei allu corfforol, Jane, merch David Myddelton, Caer, o linach [Gwaenyngog](#); bu'n siryf sir Ddinbych, 1541, 1542, a 1575; cwnstabl castell Dinbych, 1530; siambrlen Gwynedd, ac yn aelod seneddol dros ei sir, 1542-4, 1547-52, 1553, 1554, a 1554-5. Yn ystod yr helynt rhwng iarll Leicester ac ysweiniaid Gogledd Cymru gofalodd gadw ar yr ochr iawn i'r iarll. Bu farw ei fab hynaf a'r aer, JOHN SALUSBURY yr ieuengaf, 12 mlynedd o'i flaen, yn 1566. Ef ydoedd g r cyntaf [Catrin](#), merch Tudur ap Robert o Ferain, yr enwog [Catrin o Ferain](#); bu'n aelod seneddol tros sir Ddinbych, 1545-7, a thros Dinbych, 1554. Gadawodd John ddau fab, [THOMAS SALUSBURY, yr hynaf](#), a ddiennyddiwyd yn 1586, a JOHN SALUSBURY (1567 - 1612), a etifeddodd y stad ar ei ôl. Ymaelododd John yng Ngholeg Iesu, Rhydychen, 24 Tachwedd 1581, pan yn 14 oed, ac ym mis Rhagfyr 1586 priododd Ursula Stanley, merch anghyfreithlon Henry Stanley, iarll Derby. Ceir ei hanes yn ymladd 'duel' â'i gâr, y capten Owen Salusbury, Holt, yng Nghaer, Mawrth 1593, ac wedi clwyfo Owen yn dianc rhag y gyfraith. Ni wyddys i sicrwydd beth oedd wrth wraidd yr helynt hwn, er, wrth gyfeirio ato mewn cywydd a wnaeth ar yr achlysur, y gofidia [Siôn Tudur](#) am yr ymraniadau teuluol rhwng Salbriaid Llewenni a [Rug \(Llanstephan MS 124](#) [↗](#) (628)). Ymhen dwy flynedd wedi hynny, 19 Mawrth 1594/5, aeth John i astudio'r gyfraith i'r Middle Temple, ac am y 10 mlynedd nesaf treuliodd lawn cymaint o'i amser yn Llundain ag yn ei sir ei hun. Gwasnaethai'r frenhines fel 'squire of the body,' swydd y penodwyd ef iddi yn 1595. Blwyddyn fawr yn ei hanes oedd y flywyddyn 1601; ym mis Mehefin urddwyd ef yn farchog gan Elisabeth ei hun, ac ar 16 Rhagfyr etholwyd ef yn aelod seneddol tros sir Ddinbych - hynny wedi brwydr ffyrnig yn erbyn ei elynion yn y sir - [Syr Richard Trevor](#), Trefalun, Syr John Lloyd, Llanrhaeadr, a'r [capten John Salusbury](#), Rug. Cyrifai Syr John ei hun yn dipyn o fardd, a chyfansoddodd, yn null ei oes ac yn Saesneg, amryw o ganeuon serch a sonedau nad ydynt o fawr werth fel llenyddiaeth, ond serch hynny yn taflu goleuni ychwanegol ar beth o ganu Shakespeare a'r beirdd cyfoes eraill (gweler Carleton Brown, *Poems by Sir John Salusbury and Robert Chester*). Nid ymddengys iddo byth ddychwelyd i Lundain wedi marw Elisabeth, a chymylwyd ei flynyddoedd olaf gan fynych ymdrechion ei elynion i'w ddifrio yng ngolwg y brenin newydd a'i lys. Bu farw 24 Gorffennaf 1612 gan adael stad Llewenni i'w fab HENRY SALUSBURY (1589 - 1632), a aeth fel ei dad yn fyfyrwr i'r Middle Temple, 27 Tachwedd 1607, ac a urddwyd yn farwnig, 10 Tachwedd 1619. Dilynwyd Henry ar ei farw, 2 Awst 1632, gan ei fab [Syr THOMAS SALUSBURY](#) (1612 - 1643), y bardd a'r ail farwnig, ac yntau, yn 1643, gan ei fab THOMAS SALUSBURY (1634 - 57/8), a fu farw'n ddibriad 23 Mawrth 1657/8. Etifeddwyd y stad gan ei frawd, JOHN SALUSBURY (bu farw 1684), y 4ydd barwnig a'r olaf, a fu'n aelod seneddol tros Ddinbych, 1661-81. Ar ei farw ef yn ddiblant, 23 Mai 1684, daeth y stad i feddiant ei chwaer, Hester (bu farw 1710), a briododd [Syr Robert Cotton](#) o Combermere (gweler yr ysgrif ar [Stapleton Cotton](#)). Ei yr ef, Syr Robert Salusbury Cotton (1695 - 1748), mab Syr Thomas Cotton (bu farw 1715), a werthodd Lewenni i Thomas Fitzmaurice tua 1780. Priododd trydedd merch Syr Thomas Cotton, Hester Maria, â John Salusbury, Bachygraig (1710 - 1762), llywodraethwr Nova Scotia a disgyynydd o Roger Salusbury, un o feibion Syr John Salusbury ('Syr John y Bodiau'), a briododd Ann, merch ac aeres [Syr Richard Clough](#), Bachygraig. Merch i Hester Maria a John Salusbury oedd yr enwog [Hester Lynch Piozzi](#) (1740 - 1821).

Awdur

Emyr Gwynne Jones, (1911 - 1972)

Ffynonellau

J. E. Griffith, *Pedigrees of Anglesey and Carnarvonshire Families* (1914), 222

John Williams, *Ancient and modern Denbigh a descriptive history of the castle, borough and liberties with sketches of the lives, character and exploits of the feudal lords* (Dinbych 1856), 163-73, a *The Records of Denbigh and its Lordship bearing upon the general history of the county of Denbigh since the conquest of Wales; illustrated with many gems of Welsh mediæval poetry never before published* (1770), 190-201

J. Ballinger, *Y Cymmrodor*, xl, 1-42

J. E. Neale, *The English historical review*, 1931, 209-27

A. H. Dodd, *The English historical review*, 1944, 348-70

Carleton Brown, *Poems by Sir John Salusbury and Robert Chester* (Llundain 1914)

NLW MSS 1564-5, 1603, 5390, 6494-6

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

